Gwisg Ysgol*

Dewis 1: Gaeaf

Hanner tymor Hydref hyd wyliau'r Pasg.

Dewis 2: Gaeaf

Hanner tymor Hydref hyd wyliau'r Pasg

Dewis 3: Haf **

Gwyliau'r Pasg tan hanner tymor Hydref



Trowser du. Dylai trowser fod mewn arddull glasurol, nid yn dynn nac yn rhy llac ac o hyd **llawn** (i'r sawdl).

Nid yw'r canlynol yn dderbyniol
Denim, trowser mewn arddull jîns na throwser mewn ffabrig ymestyn, h.y. 'leggings, jeggings, combats'.

Crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol arno.

Rhaid I bob disgybl gael siwper ysgol bob dydd; pan yn boeth, gellir cadw yn ei bag.

Trowser byr ffurfiol du, hyd at y **ben-glin**.

Dim trowser byr 'combat', denim, chwaraeon nac o ddefnydd sy'n ymestyn.

******Gall disgyblion wisgo naill ai **trowser**, **trowser byr ffurfiol** neu **sgert ffurfiol** hyd at y **ben-glin** gyda chrys polo.

Gweler dewis 1 & 2.

Cot: Cot blaen du neu las tywyll.

Ddim yn dderbyniol: Denim, lledr na 'jersey jacket', 'hoody' (gyda sip neu beidio) gan gynnwys hoody gwersi chwaraeon sydd i'w gwisgo mewn gwersi a digwyddiadau chwaraeon yn unig.

Colur ac ewinedd

- Ni ddylai colur fod yn amlwg
- Dim lliw nag unrhyw fath o estyniad ar yr ewinedd.

Bydd yr ysgol yn gofyn i ddisgyblion i dynnu unrhyw golur sydd i'w weld yn amlwg neu / ac yn eithafol.

Gemwaith

- Gall disgyblion wisgo un fodrwy gwastad blaen
- Gall ddisgyblion wisgo un par o glustlysau bach ar waelod y glust
- Ni chaniateir gemwaith arall

Ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddarn o emwaith, oriawr neu eitem arall a ddaw disgybl i'r ysgol.

Gwallt

- Dylai gwallt fod o liw naturiol
- Ni chaniateir gwallt mewn ffasiwn eithafol neu sy'n tynnu sylw

Os ydych yn ansicr am yr uchod, cysylltwch gydag aelod o'r Uwch Dîm Arwain neu Bennaeth Cynnydd eich plentyn i drafod.

Gwisg anghywir

Bydd unrhyw ddisgybl nad yw'n cydymffurfio gyda'r rheolau yn cael eu danfon i'r Hafan ac yn cael cynnig y wisg gywir i'w gwisgo, os yn bosib, neu'r cyfle i ffonio adref i drefnu bod y wisg gywir yn dod i'r ysgol. Bydd sancsiynau ar ddisgyblion nad ydynt yn cydymffurfio.

Golchir **pob** dilledyn a gynnigir i ddisgyblion o'r Hafan yn ddyddiol.

* Mae rhai cwmnïoedd yn brandio eu dillad fel 'addas ar gyfer Ysgol'- nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y dilledyn hwnnw yn dderbyniol yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Cysylltwch gydag aelod o'r uwch dîm arwain neu bennaeth cynnydd eich plentyn os ydych yn ansicr o addasrwydd darn o ddilledyn.

Cyflenwyr gwisg ysgol:

Box of Delights Aberaeron 01545 571186

Brodwaith y Cei 01239654620 http://www.brodwaith.co.uk

Elegance New Quay 01545 560 466

Alison Jones 01970625288 alisonjonesuk@yahoo.co.uk